# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 22 Tachwedd 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 33(v5)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

### Cwestiynau Brys

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:**

**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau staffio yn safle Tata ym Mhort Talbot?

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:**

**Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr opsiynau a gyflwynodd Bwrdd Iechyd Hywel Dda i leihau gwasanaethau paediatrig dros dro yn Ysbyty Llwynhelyg?

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:**

**Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i symleiddio byrddau cynghori economaidd Llywodraeth Cymru? EAQ(5)0076(EI)

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Adolygiad Diamond o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru

(45 munud)

**Dogfen Ategol:**

Adolygiad annibynnol o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Rhentu Doeth Cymru

(30 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Canolbwyntio ar Allforion

(30 munud)

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Diwydiant Bwyd a Diod

(30 munud)

**Dogfen Ategol**

Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020

## 7 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Diwrnod Rhyngwladol i Ddileu Trais yn erbyn Menywod

(30 munud)

**Dogfen Ategol**

Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - 2016 - 2021

## 8 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Cymru o Blaid Affrica

(30 munud)

**Dogfen Ategol**

Cymru o blaid Affrica - 10 mlynedd 2006-2016

## 9 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (Cyflwynwyd yn Saesneg yn unig)

(15 munud)

**NDM6168 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

1. Yn cymeradwyo bod fersiwn ddrafft The Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2016.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (Cyflwynwyd yn Saesneg yn unig)

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 17 Tachwedd 2016 i'w hateb ar 22 Tachwedd 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Leanne Wood (Rhondda): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am werth allforion tramor i economi Cymru? OAQ(5)0280(FM)

2. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynllun Rhentu Doeth Cymru? OAQ(5)0273(FM)

3. Hefin David (Caerffili): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu 'Cwricwlwm i Gymru - cwricwlwm am oes'? OAQ(5)0286(FM)

4. Huw Irranca-Davies (Ogwr): A yw'r Prif Weinidog wedi ystyried potensial y cynnig o ran canolbwynt trafnidiaeth Pen-y-bont ar Ogwr fel rhan o gyflwyno Metro De Cymru yn raddol? OAQ(5)0276(FM)

5. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei drafodaethau ag awdurdodau lleol ynghylch ailbrisio ardrethi busnes? OAQ(5)0277(FM)

6. Rhianon Passmore (Islwyn): Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran gwella nifer y bobl sy'n goroesi canser? OAQ(5)0278(FM)

7. Mark Reckless (Dwyrain De Cymru): Pryd y gwnaeth y Prif Weinidog ei alwad gyntaf am ddileu tollau ar bontydd Hafren? OAQ(5)0282(FM)

8. Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pa ystyriaeth y mae'r Prif Weinidog wedi'i roi i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru gael swyddogaeth banc seilwaith? OAQ(5)0279(FM)

9. Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y rhagolygon ar gyfer twf economaidd yng nghymoedd y de? OAQ(5)0289(FM)

10. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am brinder meddygon teulu yng Nghymru? OAQ(5)0288(FM)**W**

11. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Beth yw ymateb Llywodraeth Cymru i ddyfarniad yr Uchel Lys yn erbyn Llywodraeth y DU ynghylch cynlluniau annigonol i fynd i'r afael â lefelau uchel o lygredd aer? OAQ(5)0283(FM)

12. Gareth Bennett (Canol De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella dibynadwyedd gwasanaethau rheilffordd yng nghymoedd y de? OAQ(5)0284(FM)

13. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer gorllewin Cymru yn ystod y 12 mis nesaf? OAQ(5)0271(FM)

14. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru? OAQ(5)0272(FM)

15. Sian Gwenllian (Arfon): Beth y mae'r Prif Weinidog yn ei wneud er mwyn newid y canfyddiad fod Llywodraeth Cymru ddim ond yn berthnasol i Gaerdydd a de Cymru? OAQ(5)0285(FM)**W**

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Cyhoeddir agenda'r Cyfarfod Llawn wythnos cyn pob cyfarfod, a gellir ei gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**
**Dydd Mawrth 29 a dydd Mercher 30 Tachwedd 2016**
**Dydd Mawrth 6 a dydd Mercher 7 Rhagfyr 2016**
**Dydd Mawrth 13 a dydd Mercher 14 Rhagfyr 2016**

---

**Dydd Mawrth 29 Tachwedd 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) (60 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol (15 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2015-16 (60 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol ar gyfer 2015-16 (60 munud)

**Dydd Mercher 30 Tachwedd 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Datganiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar y Comisiynydd Safonau sy'n dod i mewn (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Dadl Fer - Nick Ramsay (Mynwy) (30 munud)

**Dydd Mawrth 6 Rhagfyr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Canlyniadau PISA (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Ynni (30 munud)
- Gorchymyn y Cyngor Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferydd Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016 (15 munud)
- Dadl ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2017-18 (120 munud)

**Dydd Mercher 7 Rhagfyr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer - John Griffiths (Dwyrain Casnewydd) (30 munud)

**Dydd Mawrth 13 Rhagfyr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (60 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid Troseddol (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol (15 munud)
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau Taladwy) (Cymru) 2016 (15 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud):
    - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016
    - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016

**Dydd Mercher 14 Rhagfyr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru) (30 munud)